# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 08.06.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym O. Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Dewi Llewelyn a W. Tudor Owen

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CLWB CANOL DRE, 11-13, STRYD FAWR, CAERNARFON**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:</u>**

**Ar ran Clwb Canol Dre, 11-13, Stryd Fawr, Caernarfon:** Mr Haydn Parry (Llywydd y Clwb) a Mr D.J. Hughes

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru) a'r Cwnstabl Delyth Bryan

**Ar ran y Gwrthwynebwyr:** Mr Robert Hamilton, Mr Ben Hellfeld, Mrs Frances Morris, Mrs Louise Williamson, Mrs Susan Colclough, Mr R.J. Colclough, Mr Richard Bonner Pritchard.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Clwb Canol Dre, 11-13, Stryd Fawr, Caernarfon am drwydded eiddo i ganiatau chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dawnsio, darparu bwyd poeth a gwerthiant alcohol rhwng 10.30 a 01.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.30 a 00.01 ar ddydd Sul, gyda'r eiddo'n cau hanner awr yn hwyrach. Yn ogystal, gofynnir am awr ychwanegol ar yr uchod ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc. 'Roedd y drwydded hon i gymryd lle'r dystysgrif clwb.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Derbyniwyd e-bost gan yr aelod lleol yn datgan, oherwydd bod ganddo drwydded ar gyfer eiddo arall yn y dref, nid oedd mewn sefyllfa felly i gyflwyno sylwadau ar y cais hwn. Derbyniwyd hefyd lythyrau gan drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais. Nodwyd bod un o'r gwrthwynebwyr wedi ymddiheuro gan nad oedd yn gallu mynychu'r gwrandawiad.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu . hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd Llywydd y Clwb nad yw'n fwriad gan y clwb i ddarparu bwyd yn yr eiddo ac yn wyneb hynny 'roedd yn fodlon dileu'r cymal hwn o'r cais. Defnyddiwyd yr eiddo

fel Clwb y Ceidwadwyr am nifer helaeth o flynyddoedd ond ers oddeutu chwe mis fe'i newidiwyd i Clwb Canol Dre. Nododd mai aelodaeth y clwb ar hyn o bryd yw oddeutu 200, a bod 75% o'r aelodau'n ddynion a 25% yn ferched. Mae cyfartaledd oedran yr aelodau tros 50 oed ond ychydig iawn sydd dan 30 oed. Er creu ychydig o incwm ychwanegol i'r clwb, cynhelir partion ar gyfer rhai sy'n dathlu penblwydd yn 18 a 21 oed a.y. ac hefyd partion priodas. Yn ystod y gaeaf mae'r clwb yn agored o ddydd Llun i ddydd Sul ac yn ystod yr haf o ddydd Mercher i ddydd Sul. Nid yw'r cais hwn am drwydded yn gofyn am oriau ychwanegol. Nododd ei fod yn aelod o'r clwb ers oddeutu 50 mlynedd ac mai un digwyddiad yn unig a gymerodd le o fewn y clwb yn ystod y cyfnod ac fe waharddwyd y person hwnnw o'r clwb. Nid oes problemau cyffredinol yn bodoli gyda rheolaeth y clwb. Cadarnhaodd na fyddai diodydd yn cael eu cario allan o'r clwb.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu bod tystysgrif anheddau clwb yn bodoli ar gyfer yr eiddo, ac mae'r cais dan ystyriaeth i newid i drwydded eiddo ond nid oes bwriad i newid yr oriau. Nododd y bwriad i barhau i redeg y clwb ar lawr cyntaf yr adeilad. Cyfeiriodd at ei lythyr dyddiedig 19 Mai 2011 at yr Awdurdod Trwyddedu a oedd yn nodi nad oedd gan yr heddlu yr adeg hynny unrhyw dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag, yn dilyn ysgrifennu'r llythyr hwnnw tynnwyd sylw'r heddlu at un digwyddiad tu allan i'r eiddo yn ystod parti penblwydd ar 13 Mai 2011. 'Roedd yn ddigwyddiad eithaf difrifol ar y pryd gyda nifer o bobl ifanc dan ddylanwad alcohol yn achosi anhrefn ar y stryd tu allan i'r eiddo. Trafodwyd y mater gyda Uwch Swyddog yr Heddlu sy'n gyfrifol am blismona yn yr ardal hon, ac o ystyried mai hwn yw'r unig ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â'r eiddo hwn, 'roedd yr heddlu'n barod i gydweithio gyda'r ymgeisydd. Mae'r digwyddiad felly'n atgyfnerthu'r angen i gynnwys yr amodau ychwanegol y cyfeirir atynt yn eu llythyr at yr Awdurdod Trwyddedu ar y drwydded. Nododd bod yr ymgeisydd yn cytuno â'r amodau hynny. Pwysleisiodd bod angen i'r goruchwylwyr drysau fod yn hollol sicr o'u dyletswyddau pan gynhelir partion yn yr eiddo. Yn ychwanegol at yr amodau a argymhellir gan yr heddlu 'roedd o'r farn y dylid cynnwys amod arall sef *"bod yr eiddo'n gweithredu polisi "Herio 21" a olygai y bydd unrhyw berson sy'n edrych dan 21 oed yn gorfod arddangos dogfen prawf oed cydnabyddedig".* 'Roedd yn ymwybodol bod yr eiddo eisoes yn gweithredu system stampio dwylo a olygai mai y rhai sydd â stamp ar eu dwylo sy'n gallu prynu alcohol yno. Nododd bod yna amod ar y cytundeb wrth logi'r eiddo y gofynnir i bobl ddangos cerdyn adnabod. 'Roedd angen bod yn wyliadwrus o ran cardiau ffug ac felly cynghorir bod eiddo'n derbyn cardiau safonol dan y cynllun safonau prawf oedran, trwydded yrru gyda llun arno neu pasport. O ran y cyfeiriad at boteli a gwydrau, byddai'n bosibl cynnwys amod i atal defnyddwyr y clwb rhag mynd â photeli a gwydrau tu allan i'r eiddo. Nid oes gan yr heddlu unrhyw dystiolaeth bod hynny'n digwydd.

Nid oedd y Swyddog Iechyd Amgylchedd yn bresennol yn y cyfarfod ond nid oedd ganddi wrthwynebiad i'r cais yn ddarostyngedig bod yr amodau yr argymhellir parthed rheoli sŵn o'r eiddo'n cael eu gosod ar y drwydded.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol:-

- Ers sefydlu'r clwb mae'r sŵn a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol a bod hyn yn amharu ar fwynderau'r trigolion cyfagos. 'Roedd y sŵn yn creu mwy o broblemau ar benwythnosau, gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus.
- Bod cwsmeriaid y clwb yn dod â photeli a gwydrau allan o'r adeilad ac yn yfed ar y stryd. Gadewir gwydrau hefyd ar silffoedd ffenestri'r tai.
- Bod ffenestri rhai o'r eiddo gerllaw wedi eu malurio.
- Problemau gyda ieuenctid yn chwydu ar y stryd.
- Bod mynychwyr y clwb yn gadael ysbwriel ar y stryd.

Mewn ymateb i rhai o'r pwyntiau uchod, hysbysodd Llywydd y Clwb na chaniateir i fynychwyr y clwb fynd â photeli a gwydrau tu allan i'r eiddo. Nododd hefyd mai ar nosweithiau Gwener y cynhelir y partion.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Clwb Canol Dre, 11-13, Stryd Fawr, Caernarfon fel a ganlyn –**
**a) Caniatau chwaraeon dan do (paragraff C) rhwng 10.30 a 01.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.30 a 00.01 ar ddydd Sul.**
**b) Caniatau cerddoriaeth fyw (paragraff E); Cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F); Perfformiadau dawns (paragraff G); Rhywbeth o ddisgrifiad cyffelyb i'r hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau E, F neu G (paragraff H); Cyfleusterau ar gyfer chwarae cerddoriaeth (paragraff I); Cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J); Darparu cyfleusterau a gyfer adloniant yn debyg i ddisgrifiad yr hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau I neu J (paragraff K) a chyflenwi alcohol (paragraff M) rhwng 10.30 a 01.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.30 a 00.01 ar ddydd Sul. Caniatau hanner awr ychwanegol i'r oriau hyn ar benwythnos Pasg, Dydd Nadolig, Gŵyl Sant Steffan a Nos Calan.**
**c) Yr eiddo ar agor i'r cyhoedd (paragraff O) rhwng 10.30 a 01.30 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10.30 a 00.30 ar ddydd Sul.**
**ch) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**
**d) Sicrhau nad oes poteli gwydr nac ysbwriel yn cael eu gadael tu allan i'r eiddo ar ôl yr oriau cau o fewn radiws o 5 metr o brif fynedfa'r eiddo.**
**dd) Sicrhau nad yw cwsmeriaid y clwb i fynd â photeli gwydr na gwydrau tu allan i'r eiddo.**
**e) Bydd system teledu cylch cyfyng wedi ei osod ac yn gweithio'n ddigon da i'r heddlu a'r awdurdod lleol allu monitro tu mewn a thu allan i'r eiddo.**
**f) Bydd yn ofynnol i'r goleuadau yn y lleoliad fod yn ddigon llachar ac o safon ddigon uchel i allu adnabod unigolion yn y lleoliad.**
**ff) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio delweddau ac yn eu cadw am 31 diwrnod.**
**g) Bydd yn ofynnol bod nifer digonol o staff wedi eu hyfforddi ac ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig.**
**ng) Os bydd unrhyw ddiffyg i'r system, mae'n rhaid i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig neu Ddaliwr y Drwydded hysbysu'r awdurdod trwyddedig ac adran drwyddedu'r heddlu ar unwaith. Mae'n rhaid gwneud trefniadau i atgyweirio'r system ar unwaith. Unwaith y caiff ei hatgyweirio, mae'n rhaid hysbysu'r adrannau perthnasol pan fyddai'r system yn weithredol.**
**h) Gallai swyddog awdurdodedig ofyn am gopi o recordiad o'r system teledu cylch cyfyng ar unrhyw adeg. Ystyrir methu â chydymffurfio â'r cais hwn yn dor difrifol o'r amod hwn.**
**i) Gosodir arwyddion rhybudd teledu cylch cyfyng ym mannau cyhoeddus yr eiddo.**
**l) Mae'n rhaid i'r holl recordiadau o ddigwyddiadau gael eu diogelu ar gyfer eu harchwilio gan yr heddlu.**
**ll) Bydd yr eiddo'n aelod o'r Cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau gwarchod tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i orchmynion gwahardd mewn perthynas ag unigolion.**
**m) Pryd bynnag y cynhelir parti penblwydd 18 oed yn yr eiddo, bydd rhaid cael o leiaf dau oruchwyliwr drysau cofrestredig gan yr ADD yn bresennol fyddai wedi eu cyfarwyddo ar eu swyddogaeth a'u cyfrifoldebau.**

**n) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**o) Bod yr eiddo'n gweithredu polisi "Herio 21" a olygai y bydd unrhyw berson sy'n edrych dan 21 oed yn gorfod arddangos dogfen prawf oed cydnabyddedig.**
**p) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan y Swyddog Iechyd Amgylchedd -**
**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15 munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz o fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo drwyddedig. I bwrpas yr amod hwn mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant.**
**iii) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1, bydd perchennog yr eiddo'n gwneud y canlynol –**

- **Gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ag amod sŵn a/neu**
- **Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn a sefydlwyd fel uchafswm caniataeedig.**

**iv) Unwaith bydd lefel ar ddyfais rheoli sŵn yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Bydd drysau'r cyntedd yn cael eu cadw ar gau heblaw i sicrhau mynediad neu ymadawiad o'r eiddo.**
**vi) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng 22.00 a 08.00. Bydd y poteli'n cael eu cadw o fewn libart yr eiddo mewn sgip neu bin gyda chaead.**
**vii) Bydd arwyddion clir a dealladwy'n cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**viii) Mae'n ddyletswydd i ddaliwr trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig a'r goruchwyliwr drysau i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus lle sydd angen.**
**ix) Nid yw arogleuon annymunol o'r eiddo i achosi niwsans i eiddo cyfagos.**
**x) Gosodir system awyriant ac echdyniant i arbed arogleuon annymunol. Bydd system o'r fath yn cael ei chynnal a'i chadw'n rheolaidd.**
**xi) Nid yw unrhyw oleuo mewnol nac allanol sydd i'r pwrpas o ddiogelwch staff neu ddiogelwch yr eiddo i'w gosod mewn modd sy'n achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**
**xii) Nid yw goleuo allanol sy'n ymwneud â hysbysebu'r eiddo, adloniant neu weithgaredd yn ymwneud â'r eiddo i fod o gryfder allai achosi niwsans i unrhyw eiddo gerllaw.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.15pm a daeth i ben am 4.30pm